

GWYBODAETH ESBONIADOL I'W RHOI GYDA HYSBYSIADAU GALW AM DALU TRETHI



NODIADAU EGLURHAOL

Mae'r wybodaeth a geir isod yn esbonio rhai o'r termau y gellir eu defnyddio mewn gorchymyn am ardreth annomestig ac yn y wybodaeth atodol. Ceir rhagor o wybodaeth am rwymedigaeth i dalu ardrethi annomestig gan yr awdurdodau bilio..

Ardrethi annomestig

Telir ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau bwrdeistrefi sirol a chomisiynwyr heddlu a throseddu. Mae eich cyngor a'ch comisiynydd heddlu a throseddu yn defnyddio eu cyfran o'r incwm ardrethu wedi ei ailddosbarthu, ynghyd ag incwm gan bobl sy'n talu'r dreth gyngor, grant cefnogi referniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a chyfraniadau eraill, i dalu am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Ceir rhagor o wybodaeth am y system ardrethu annomestig, gan gynnwys pa gymhorthion y gellir eu derbyn yn <https://businesswales.gov.wales/>

Gwerth ardrethol

Mae gwerth ardrethol eiddo annomestig yn cael ei bennu fel arfer gan swyddog prasio annibynnol o'r Asiantaeth Swyddfa Brisio sy'n Asiantaeth Weithredol o Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Maent yn casglu a chynnal rhestr lawn o werthoedd ardrethol holl eiddo annomestig Cymru, ac mae'r wybodaeth ar gael ar eu gwefan, sef www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency. Fel arfer, mae pob eiddo annomestig yn cael ei ailbrisio bob 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2017 bydd gwerth ardrethol eiddo yn adlewyrchu ei werth ar y farchnad rentu agored ar 1 Ebrill 2015.

Ar gyfer eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig mae'r gwerth ardrethol yn ymwneud â'r rhan annomestig yn unig. Mae gwerth pob eiddo o ran pa ardrethi sy'n daladwy i'ch awdurdod i'w gweld yn y rhestr ardrethi lleol, ac mae copi i'w weld yn www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency neu yn y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyngor Sir Penfro, Adain y Gogledd, Hwlfordd SA61 1TP.

Ailbrisio

Mae pob gwerth ardrethol yn cael ei ailbrisio'n gyffredinol er mwyn sicrhau bod yr ardrethi a delir gan un trethdalwr yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerth ei eiddo mewn perthynas ag eiddo eraill dros amser. Mae hyn yn sicrhau bod y system ardrethu'n deg wrth ddiweddarau prisiau yn unol â newidiadau o fewn y farchnad. Daeth y rhestr ardrethi bresennol i rym ar 1 Ebrill 2017 ac mae'n seiliedig ar brisiau 1 Ebrill 2015.

Yn ystod y flwyddyn pan mae ailbrisio'n dod i rym, mae'r lluosydd yn cael ei ail-seilio er mwyn rhoi cyfrif am y newidiadau i gyfanswm y gwerth ardrethol ac i sicrhau nad ydy'r ailbrisio yn codi arian ychwanegol.

Newid y gwerth ardrethol

Gall y gwerth ardrethol newid os yw'r swyddog prasio'n credu bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Gall y trethdalwr (a phobl eraill benodol sydd â budd yn yr eiddo) hefyd gynnig newid yn y gwerth mewn rhai amgylchiadau. Os nad yw'r trethdalwr a'r swyddog prasio'n cytuno ar werth o fewn 3 mis i'r cynnig, mae'r mater yn cael ei gyfeirio gan y swyddog prasio fel apel gan y sawl a wnaeth y cynnig i Dribiwnlys Prasio Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gynnig newid mewn gwerth ardrethol o swyddfeydd prasio.

Lluosydd yr ardreth annomestig

Dyma gyfradd y bunt y lluosir y gwerth ardrethol â hi er mwyn rhoi'r bil treth blynyddol ar eiddo. Gosodir yr ardreth gan Weinidogion Cymru bob blwyddyn ar gyfer Cymru gyfan ac ni chaniateir ei chodi'n uwch na chyfradd y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Cynigion ac apeliadau

Ceir gwybodaeth am ba amgylchiadau sy'n golygu y gellir cynnig newid yn y gwerth ardrethol a sut mae gwneud cynnig o'r fath o'r swyddfa brisio a ddangosir uchod. Ceir rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio gan Gyngor Sir Penfro neu'r Asiantaeth Swyddfa Brisio.

Mae Tribiwnlys Prasio Cymru'n darparu gwasanaeth apelio annibynnol am ddim i ddeilio ag apeliadau ynglŷn ag Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor. Mae eu manylion cysylltu ar gael yn <http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html>

Ardrethu eiddo heb ei feddiannu

Efallai y bydd yn rhaid i berchnogion eiddo annomestig sydd heb eu meddiannu dalu ardreth eiddo gwag sy'n 100 y cant o'r rhwymedigaeth arferol. Mae'n rhaid dechrau talu ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis, neu yn achos rhai eiddo diwydiannol penodol, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Nid oes rhaid talu ardreth eiddo gwag ar rai mathau o eiddo.

Cymorth elusengar ac yn ôl disgrisiwn

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol gael 80% o ostyngiad ar ardreth ar eiddo annomestig pan -

- yn achos elusennau, mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio i bwrpas elusennol yn gyfan gwbl neu'n bennaf, neu
- yn achos clwb, mae'r clwb wedi cael ei gofrestru gyda CThEM.

Gall awdurdodau bilio ddychwelyd yr 20 y cant sy'n weddill neu ran ohono yn ôl disgrisiwn ar eiddo o'r fath a gallant hefyd roi gostyngiad ar eiddo sydd wedi ei feddiannu gan rai cyrff sydd ddim wedi eu sefydlu er elw, na'n cael eu rhedeg er elw. Am ragor o wybodaeth am glybiau cysylltwch â CThEM, Elusennau/Charities, Savings and International 2, BX9 1BU, (eu gwefan yw is <http://www.hmrc.gov.uk>).

Rhyddhad treth i fusnesau bychain

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad i Fusnesau Bychain) (Cymru) 2017 yn darparu gostyngiad ardreth i fusnesau bychain. Mae'r manylion llawn gan gynnwys meini prawf cymhwyster, eithriadau, gofynion gweithdrefnol a gostyngiadau ardrethu perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

Rhyddhad ardrethi trosiannol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Prisiau Taladwy) (Cymru) 2016 yn rhoi rhyddhad trosiannol i fusnesau bychain a gafodd eu heffeithio er gwaeth gan ailbriso etifeddiannau domestig a fu mewn grym ers 1 Ebrill 2017. Mae'r manylion llawn gan gynnwys meini prawf cymhwyster, eithriadau, gofynion gweithdrefnol a gostyngiadau ardrethu perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

Cymorth gwladol

Gallai cael gostyngiad mewn ardrethi annomestig olygu cymorth gwladol. Mae'n gyfreithlon pan y'i darperir yn unol â'r Rheoliad Comisiwn (UE) 1407/2013 ar gymorth de minimis. Mae'r rheoliad de minimis yn galluogi cymorth 'de minimis' o hyd at €200,000 i gael ei dderbyn dros gyfnod o dair blynedd yn olynol. Os ydych chi'n derbyn, neu wedi derbyn cymorth 'de minimis' yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol (o unrhyw ffynhonnell), dylech ddweud wrth yr awdurdod bilio'n syth gan roi manylion y cymorth a dderbyniwyd.

DULLIAU TALU

Rhandaliadau Trethi Busnes - 12 misol

Mae modd i chi ddewis talu trethi busnes mewn 12 rhandaliad misol. Os ydych chi'n dymuno gwneud hynny, cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw ar 01437 764551 neu e-bostiwch Revenue.services@pembrokeshire.gov.uk erbyn 30 Mawrth. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad yma yn golygu y bydd y rhandaliadau'n cael eu hystyngiadau dros y misoedd cyfan fydd yn weddill o'r flwyddyn ariannol.

Isod gwelir manylion ynghylch sut y gallwch chi dalu'ch Ardrethi Busnes.

1. Debyd Uniongyrchol (taliadau'n uniongyrchol o'ch cyfrif banc).

Mae talu gyda debyd uniongyrchol yn rhwydd dros ben; os ydych chi'n ffonio'r Cyngor fe wnawn ni'r holl drefniadau angenrheidiol ar eich rhan a dweud wrthy, ymlaen llaw, beth yw swm eich rhandaliadau. Os hoffech dalu fel hyn ffoniwch y Gwasanaethau Refeniw ar 01437 764551 a sicrhau bod gyda chi'ch manylion bancio wrth law. Os ydych wedi dewis y dull hwn yn barod, mae manylion y taliadau i'w cymryd o'ch banc i'w gweld ar waelod yr archeb amgaeëdig.

2. Taliadau Ar-lein.

Rydych chi'n gallu talu'ch Ardrethi Busnes a gweld yn union faint yw'ch gweddill ariannol, trwy fynd ar-lein gyda **'My Account'** - Eich Cyfrif Ar-lein gyda'r Cyngor. Mae croeso ichi fynd at www.pembrokeshire.gov.uk/myaccount i ymgofrestru neu fewngofnodi heddiw.

3. System Ffôn Awtomataidd.

Dyma system awtomataidd sydd ar waith 24 awr y dydd, bob diwrnod o'r wythnos. Fe gewch eich arwain trwy gyfres o anogeiriau yn Saesneg neu Gymraeg, er mwyn dewis y dull talu, y swm, a manylion eich cerdyn credyd/debyd. Fe gewch rif derbynneb. Y rhif ar gyfer y cyfleuster hwn yw 01437 775164.

4. Canolfan Gyswilt - Taliadau dros y Ffôn.

Gallwch dalu dros y ffôn trwy ffonio 01437 764551 o ddydd Llun i Gwener - 9yb tan 5yh.

5. Canolfannau Gwasanaeth i Gwsmeriaid.

Gall cwsmeriaid gyflwyno taliadau yn unrhyw un o'r swyddfeydd canlynol yn ystod yr oriau a nodir:-

Hwlfordd - Adain y Gogledd, Neuadd y Sir	Dydd Llun - Dydd Gwener9yb - 5yh
Doc Penfro - Argyle Street	Dydd Llun - Dydd Gwener9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Aberdaugelddau - Neuadd y Dref	Dydd Llun - Dydd Gwener9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Abergwaun - Neuadd y Dref	Dydd Llun - Dydd Gwener9yb - 10.45yb, 11yb - 1yh, 1.45 - 3.15yh, 3.30 - 4.45yh
Neyland - Y Llyfrgell, St Clements Road	Dydd Llun - Dydd Gwener9.15yb - 1.15yh & 2yh - 4.45yh

Mawrth 2018